Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir

# PC39: Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig

**Cynllun i'w archwilio**

**gan y cyhoedd**

**Mai 2024**

CONWY

**This document is also available in English.**

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor. Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 576311 / 575445 / 575432 / 574232 / 575447.

**Gellir darparu'r ddogfen hon ar Gryno Ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.**

## Cynnwys

1. Cyflwyniad a Chwmpas y Papur Cefndir ........ 4

2. Cefndir ........ 4

3. Cynnydd o ran llunio rhestr o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig ........ 5

4. Disgrifiad o'r Broses Rhestru Cyfredol yn y CCA ........ 6

5. Problemau ........ 6

6. Awgrymiadau ar gyfer Gwella ........ 7

## 1. Cyflwyniad a Chwmpas y Papur Cefndir

1.1. Mae hwn yn un o gyfres o Bapurau Cefndir sydd yn gysylltiedig â'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN). Pan fydd y Cyngor yn cyhoeddi ei Strategaeth a Ffafrir a'i Gynllun i'w Archwilio Gan Y Cyhoedd, rhaid iddo hefyd egluro sut mae'r polisi wedi'i lunio ar sail y dystiolaeth sydd ar gael i'r Cyngor ar y pryd. Mae'r Papur Cefndir hwn yn edrych ar Asedau Hanesyddol o Bwysigrwydd Lleol ar draws ardal Bwrdeistref Sirol Conwy (gan eithrio Parc Cenedlaethol Eryri).

1.2 Mae'r prif adrannau o'r Papur Cefndir yn mynd i'r afael â'r polisi cenedlaethol sydd wedi dod i rym ers mabwysiadu'r Cynllun Cyflenwi Lleol, camau a gymerwyd i ffurfio rhestr leol, y dull polisi lleol cyfredol a Chynllun Cynllunio Atodol cysylltiedig, a sut mae hyn wedi gweithredu ers ei fabwysiadu, yn ogystal ag awgrymiadau ar sut y bydd y polisi / proses yn gallu cael eu gwella ar gyfer y CDLlN.

## 2. Cefndir

2.1 Mae gan Gonwy amgylchedd adeiladu hanesyddol cyfoethog ac amrywiol. Mae nifer o adeiladau a strwythurau (1488) yn manteisio ar ddiogelwch o statws rhestredig Conwy, fodd bynnag mae nifer sylweddol o adeiladau a strwythurau, parciau a gerddi eraill sydd, er eu bod o bwysigrwydd lleol, heb ddiogelwch penodol o ran amodau cynllunio.

2.2 Ers mabwysiadu'r CDLl ym mis Hydref 2013, *mae'r polisi cynllunio cenedlaethol (PPW 12) wedi cael ei gyhoeddi ac mae'n cynnwys darn ar Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig, fel isod ym Mharagraff 6.1.29: "Gall awdurdodau cynllunio ddatblygu rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig, nad oes ganddynt warchodaeth statudol, ond sy'n gwneud cyfraniad pwysig i hynodrwydd lleol, a chyda'r gallu i gyfrannu at wybodaeth leol. Pan fydd awdurdod cynllunio lleol yn dewis nodi asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig, mae'n rhaid cynnwys polisïau ar gyfer eu gwarchod a'u gwella yn y cynllun datblygu."*

2.3 Ar hyn o bryd, mae gan y Cynllun Cyflenwi Lleol bolisi sydd yn ceisio diogelu Adeiladau ac Adeiledd o Bwysigrwydd Lleol (CTH/3).

"Bydd cynigion datblygu sydd yn effeithio ar adeiladau neu strwythurau sydd yn gwneud cyfraniad pwysig i gymeriad a diddordeb yr ardal leol ond yn cael eu caniatáu lle mae golwg nodedig adeilad, uniondeb pensaernïol a'i osodiad yn ddim yn cael effaith andwyol sylweddol."

Hefyd mae Canllaw Cynllunio Atodol mewn lle sydd yn nodi sut mae Adeiladau a Strwythurau o Bwysigrwydd Lleol yn cael eu dewis a'u 'rhestru', ond nid oes rhestr wedi'i ffurfio hyd yma. Wrth i waith ar y CDLIN fynd rhagddo, nodir, er mwyn i bolisi Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yn y CDLIN weithredu'n effeithiol, dylid llunio rhestr cyn mabwysiadu'r CDLIN. Mae adran nesaf y Papur Cefndir hwn yn archwilio'r prosesau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd i lunio rhestr o'r fath.

## 3. Cynnydd o ran llunio rhestr o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig

3.1 Ym mis Chwefror 2024, ysgrifennodd Cynghorau Tref a Chymuned sy'n rhan o ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Conwy a grwpiau â diddordeb mewn cadwraeth ac amwynder i ofn am awgrymiadau o asedau hanesyddol sy'n bodloni'r meini prawf. (Gweler y meini prawf yn Atodiad A). Gosodwyd dyddiad cau o 10 Mai, 2024 ar gyfer cyflwyno, gyda'r broses ddilynol i ddod wedi hynny:

- Nes 10 Mai, 2024 - Ni fydd Cyngor Conwy'n derbyn awgrymiadau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig i ymuno â'n system ymgynghori JDI
- 10 Mai, 2024 ymlaen - Llythyr o gydnabyddiaeth yn cael ei anfon allan i'r Cynghorau Tref a Chymuned (ac unrhyw un sydd wedi cyflwyno awgrym am safle, gan amlinellu camau nesaf y broses)
- Swyddog o Gyngor Conwy yn dechrau'r broses o asesu'r awgrymiadau safle
- Yn dilyn yr asesiad uchod, bydd rhestr a ffefrir gychwynnol yn cael ei nodi, a bydd gohebiaeth yn cael ei anfon i berchnogion i esbonio bod eu heiddo ar restr ddrafft, ond bod hyn yn amodol ar ymarfer ymgynghoriad cyhoeddus a chymeradwyaeth ffurfiol gan y Cyngor
- Cyhoeddi'r rhestr a ffefrir gychwynnol, yn ogystal â'r awgrymiadau a dderbyniwyd ond na fodlonwyd y meini prawf), a cychwyn ymgynghoriad cyhoeddus am 6 wythnos.
- Ystyried yr holl ymatebion a ffurfio rhestr a ffefrir derfynol a fydd yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor.

3.2 Ar adeg ysgrifennu'r Papur Cefndir hwn, mae'r broses uchod yn dal i fynd rhagddi, ond disgwylir y bydd rhestr o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig ar gael ar gyfer cam Archwilio'r CDLIN. Fel mesur dros dro, bydd y CCA cyfredol yn cael ei ddiweddaru (a'i gymeradwyo drwy broses wleidyddol y Cyngor) i alluogi'r rhestr o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig i gael ei defnyddio mewn penderfyniadau cynllunio dan y polisi CDLl sydd eisoes wedi'i fabwysiadu.

## 4. Disgrifiad o'r Broses Rhestru Cyfredol yn y CCA

4.1 Nesaf rydym yn archwilio'r broses restru gyfredol a gytunwyd fel CCA i gefnogi'r polisi sydd wedi'i fabwysiadu yn y CDLl. Mae hon wedi'i rhannu yn dri categori:

i) Trefnu rhestr o Adeiladau a Strwythurau o Bwysigrwydd Lleol drwy arolwg.
Cofrestr Adeiladau a Strwythurau o Bwysigrwydd Lleol. Mae'r dull hwn wedi ei gyflawni fel y nodir yn adran 3 o'r Papur Cefndir hwn.

ii) Dull i gynnwys Adeiladau a Strwythurau o Bwysigrwydd Lleol ar y gofrestr mewn ymateb i geisiadau cynllunio.
Mae hyn yn cynnwys nodi Adeiladau a Strwythurau o Bwysigrwydd Lleol posibl pan maent yn dod i mewn fel testun i geisiadau cynllunio.

ii) Dull i gynnwys Adeiladau a Strwythurau o Bwysigrwydd Lleol ar y gofrestr mewn ymateb i ymholiadau cyn cyflwyno cais cynllunio.
Mae hyn yn cynnwys nodi Adeiladau a Strwythurau o Bwysigrwydd Lleol posibl pan maent yn dod i mewn fel testun i ymholiadau cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio.

Mae gan bob categori siart lif ar gyfer symud Adeiladau a Strwythurau o Bwysigrwydd Lleol ymlaen i'w mabwysiadu o fewn y Canllawiau Cynllunio Atodol presennol, er hyd yma mae Adeiladau a Strwythurau o Bwysigrwydd Lleol wedi cael eu hadnabod gan ddefnyddio'r categori cyntaf o'r rhestru (yr arolwg).

## 5. Problemau

4.1 Hyd yma daethpwyd ar draws y problemau canlynol gyda'r dull polisi cyfredol:

i) Mae'r polisi ond yn cyflenwi adeiladau a strwythurau a allai gael eu hymestyn i gynnwys asedau eraill megis parciau a gerddi hanesyddol sydd heb eu nodi'n ffurfiol yn y Gofrestr o Barciau a Gerddi Hanesyddol.

ii) Mae'r weithdrefn i 'fabwysiadu' Adeiladau a Strwythurau o Bwysigrwydd Lleol ar gofrestr yn cael ei ystyried fel proses eithaf hirwyntog ac y gellir ei wneud yn fwy effeithlon drwy leihau'r camau sydd ynghlwm/ prosesau pwyllgor (os yw'n ymarferol).

iii) Mae'r ffordd y mae'r CCA wedi'i eirio'n awgrymu bod <u>pob</u> cais cynllunio yn cael ei 'asesu' dan bolisi CTH/3. Mae'r geiriad hwn wedi cyflwyno dryswch

ynghylch sut mae’r polisi’n cael ei gymhwyso, ac o ganlyniad, byddai’n elwa o eglurhad.

iv) Adnoddau – oriau swyddog yn gyfyngedig i greu rhestr o Adeiladau a Strwythurau o Bwysigrwydd Lleol.

## 6. Awgrymiadau ar gyfer Gwella

6.1 Mae rhai awgrymiadau wedi’u gwneud i fynd i’r afael â rhai o’r problemau a nodwyd yn adran 5, ac i wella'r polisi a Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer y CDLlN.

6.2 O ran problem 5 i), mae’n amlwg bod canllawiau cenedlaethol yn fwy eang nag adeiladau a strwythurau gan fod Polisi Cynllunio Cymru yn cyfeirio at ‘asedau hanesyddol’. Gan ystyried hyn, byddai’n ymddangos yn ddoeth i ehangu cwmpas y polisi i 'Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig' a fyddai'n caniatáu i gynnwys parciau a gerddi hanesyddol a restrir yn lleol.

6.3 Wrth edrych ar brosesau mabwysiadu Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig, mae tri dull a restrir yn y CCA a fabwysiadwyd, ac mae hyn wedi creu dryswch o ran sut mae’r polisi’n cael ei gymhwyso. I symleiddio materion, ar gyfer y CDLlN, cytunwyd ar gael un dull ar gyfer rhestru, sef dull cynnal arolwg. Mae dull cynnal arolwg yn dibynnu ar ffurfio rhestr reol a fydd yn cael ei diweddaru ar gyfnodau y cytunir arnynt. Ni fydd cyfle ar gyfer ‘rhestru ar y pryd’ ac o ganlyniad bydd ased yn cael ei drin fel ased hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig mewn termau cynllunio, os ydyw ar y rhestr y cytunwyd arni. Mae hyn yn ychwanegu tryloywder ac yn diddymu ansicrwydd o benderfyniadau cynllunio o ran beth, a beth sydd ddim yn Ased Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig .

6.4 Bydd CCA diwygiedig yn cael ei gasglu i fynd gyda’r CDLIN i’w Archwilio a fydd yn amlinellu’r broses newydd hon.

## Atodiad A

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig - Meini Prawf Asesu**

Mae pedwar meini prawf o ran pam fyddai adeilad neu strwythur yn gymwys i fynd ar y rhestr, sef: diddordeb pensaernïol, diddordeb hanesyddol, cysylltiad hanesyddol a gwerth cymunedol. Mae'n rhaid i bob adeilad / strwythur a enwebir fodloni maen prawf 1 - Diddordeb pensaernïol i ryw raddau, ond efallai y bydd o ddiddordeb hanesyddol hefyd er enghraifft, neu y bydd ganddo gysylltiad hanesyddol a byddai'r rhain yn rhesymau arwyddocaol i gynnwys yr adeilad / strwythur ar y gofrestr.

1. **MAEN PRAWF 1 - A oes gan yr Adeilad / Strwythur Ddiddordeb Pensaernïol?** Gan fod adeiladau ar y Gofrestr Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yn cael eu cynnwys yn bennaf oherwydd eu nodweddion pensaernïol ffisegol, dyma fydd y brif ystyriaeth wrth lunio'r gofrestr.

**A oes gan yr adeilad / strwythur ddiddordeb pensaernïol? (Oes / Nac oes)**

**DIDDORDEB PENSAERNÏOL**

Bydd diddordeb pensaernïol adeilad, neu grŵp o adeiladau, yn cael ei farnu yn unol â'r meini prawf canlynol.

**(a)** Ansawdd

i) defnyddio deunyddiau a chrefftwaith o ansawdd;

ii) enghreifftiau rhagorol o waith pensaer, adeiladwr neu ddatblygwr lleol neu ranbarthol nodedig

**(b)** Pensaernïaeth Ddilys neu Nodedig

i) enghreifftiau da o arddull, math neu gymeriad pensaernïol lleol sy'n nodedig;

ii) defnydd lleol cynnar o ddeunyddiau neu dechnegau adeiladu newydd (er enghraifft, defnyddio concrid o'r 19eg ganrif)

iii) rhinweddau pensaernïol a gydnabuwyd gan wobrau lleol neu genedlaethol

**(c) Cyfrannu at gymeriad yr ardal**

(i) Adeiladau unigol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad yr ardal leol oherwydd eu harddull, math, dyluniad, addurn, defnydd o ddeunyddiau a chrefftwaith, yn cynnwys adeiladau tirnod sy'n ganolbwynt diddordeb cymdeithasol a gweledol.

(ii) Grwpiau o adeiladau sydd, gyda'i gilydd â gwerth pensaernïol unedig i'r ardal leol, er enghraifft, terasau, sgwariau, buarth ffermydd, ffermydd neu resi unffurf.

## 2. MAEN PRAWF 2: A yw’r adeilad / strwythur o ddiddordeb hanesyddol?*

### DIDDORDEB HANESYDDOL

Bydd diddordeb hanesyddol adeilad, neu grŵp o adeiladau, yn cael ei farnu yn unol â hanes cymdeithasol, economaidd, diwylliannol, diwydiannol neu filwrol yr ardal. Weithiau, mae datblygiad ardal yn cael ei ddylanwadu gan adeilad unigol, a all chwarae rôl hollbwysig wrth siapio cymeriad yr ardal, neu’r naws cymdeithasol lleol. Gallai adeiladau o’r fath gynnwys Eglwysi, Ysgolion, Neuaddau Pentref a Thref, Capeli, Tafarndai, Cofebion, mannau gwaith a Wyrcws, oedd yn ganolbwynt i hanes yr ardal, neu oedd yn chwarae rhan allweddol ynddo.

A yw’r adeilad / strwythur o ddiddordeb hanesyddol? (Ydy / Nac ydy)

*Mae'n bosibl na fydd adeiladau a ystyrir ar sail diddordeb hanesyddol yn unig yn gymwys i gael eu cynnwys os nad yw eu pensaernïaeth yn ddilys, nodedig neu o ansawdd i haeddu cael eu cynnwys fel adeiladau lleol allweddol.

3. **MAEN PRAWF 3 - A oes gan yr adeilad / strwythur gysylltiad hanesyddol?**

Bydd cysylltiad hanesyddol adeilad, neu grŵp o adeiladau, yn cael ei farnu yn unol â'r canlynol:

**CYSYLLTIAD HANESYDDOL**

**A oes gan yr adeilad / strwythur gysylltiad hanesyddol? (Oes / Nac oes)**

i. cysylltiad hanesyddol wedi'i ddilysu'n dda ag unigolyn/unigolion neu ddigwyddiad nodedig;

iii. pobl neu ddigwyddiadau o ddiddordeb cenedlaethol â chysylltiad uniongyrchol;

iii. pobl neu ddigwyddiadau o ddiddordeb lleol â chysylltiad maith ac uniongyrchol;

iv. y cyfraniad a wnaed gan yr unigolyn neu ddigwyddiad at y maes lleol;

v. pwysigrwydd yr adeilad o ran gwaith / dylanwad yr unigolyn neu ddigwyddiad dan sylw;

vi. cysylltiad allweddol ag unigolyn neu ddigwyddiad nodedig, yn enwedig os yw'r unigolyn neu ddigwyddiad wedi dylanwadu ar ddigwyddiadau cenedlaethol yn ystod eu cysylltiad â'r adeilad dan sylw.

**Mae'n bosibl na fydd adeiladau a ystyrir ar sail cysylltiad hanesyddol yn unig yn gymwys i gael eu cynnwys os nad yw eu pensaernïaeth yn ddilys, nodedig neu o ansawdd i haeddu cael eu cynnwys fel adeiladau lleol allweddol.

4. **MAEN PRAWF 4 - A oes gwerth cymunedol i'r adeilad / strwythur?*****

Bydd gwerth cymunedol adeilad, neu grŵp o adeiladau, yn cael ei farnu yn unol â'r canlynol:

**GWERTH CYMUNEDOL**

**A oes gwerth cymunedol i'r adeilad / strwythur? (Oes / Nac oes)**

i. yn coffau neu'n symbolaidd o agweddau cymdeithasol neu gyfnod penodol yn hanes Cymru

ii. gwerth cymdeithasol fel ffynhonnell o ryngweithio cymdeithasol. Gall hyn gynnwys adeiladau a strwythurau a ddefnyddir at ddibenion cyflogaeth, neu rai sydd â gwerth cymdeithasol yn deillio o gredoau crefyddol neu ganfyddiadau modern o ysbryd lle

iii. Adeilad neu strwythur sy'n meithrin synnwyr o hunaniaeth gymunedol - h.y. un lle gall pobl echdynnu rhan o'u hunaniaeth neu gof, neu â chysylltiad emosiynol iddo.

***Mae'n bosibl na fydd adeiladau a ystyrir ar sail gwerth cymunedol yn unig yn gymwys i gael eu cynnwys os nad yw eu pensaernïaeth yn ddilys, nodedig neu o ansawdd i haeddu cael eu cynnwys fel adeiladau lleol allweddol.